

Briff i'r Ymgeisydd a Disgrifiad o'r Swydd

Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Lle

Y Gyfarwyddiaeth Tai ac Adfywio

Y Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Cynllunio, Gwydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd

Llywodraeth Cymru

Dyddiad cau: Dydd Gwener 16 Hydref 2026 am 4:00pm



Cynnwys

1. Neges gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol Claire Bennett a'r Cyfarwyddwr Alyson Francis
2. Cefndir Llywodraeth Cymru
3. Rôl Dirprwy Gyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Tai ac Adfywio
4. Y Prif Gyfrifoldebau
5. Y Broses Recriwtio a Dethol
6. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
7. Buddion Gweithio i Lywodraeth Cymru
8. Cwestiynau Cyffredin a Chysylltu â Ni

Croeso gan Claire Bennett

Cyfarwyddwr Cyffredinol Llywodraeth Leol, Tai, Cynllunio, Gwytnwch Gwledig a Chynaliadwyedd



Diolch am eich diddordeb yn swydd Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Lle, rôl ganolog wrth fynd i'r afael â'r argyfwng tai yng Nghymru. Mae hwn yn gyfle gwych ac yn gyfle i ymuno â thîm yr Uwch Wasanaeth Sifil yn Llywodraeth Cymru ar adeg llywodraeth newydd.

Mae ein agenda yn bwysicach nag erioed. Ein nod yw cefnogi'r Prif Weinidog a Gweinidogion Cymru i adeiladu Cymru fodern, hyderus o fewn tirwedd genedlaethol, DU a rhyngwladol.

Mae Llywodraeth Cymru'n atebol i bobl Cymru drwy Senedd Cymru. Ein nod yw bodloni safonau uchel o dryloywder, gan fod yn agored, a dangos gonestrwydd, gwrthrychedd, uniondeb a didueddrwydd ym mhopeth a wnawn. Rydym hefyd yn amcanu at greu amgylchedd gwaith sy'n ysgogi, yn arloesol, yn gefnogol ac yn cynrychioli'r bobl rydym yn eu gwasanaethu. Fel llywodraeth rydym wedi ymrwymo i ffyrdd newydd o weithio, o lunio llywodraeth fodern gydag egni a syniadau a dylech allu arwain drwy esiampl wrth fabwysiadu arferion gweithio hyblyg sy'n addas ar gyfer y byd ôl-Covid-19.

Ffurfiwyd y Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Gwytnwch Gwledig a Chynaliadwyedd ym mis Mai 2026 i gefnogi Llywodraeth newydd Cymru yn dilyn etholiad cyffredinol y Senedd. Mae'r Grŵp yn cefnogi Gweinidogion i gyflawni eu rhaglen lywodraethol, gan weithio gyda phartneriaid ledled Cymru ac ariannu ystod eang o wasanaethau a rhaglenni allweddol. Mae gwaith y Grŵp yn eang o ran cwrdd gyda chyfrifoldeb am y berthynas â Llywodraeth Leol a'i hariannu; sicrhau bod gan bobl gartrefi fforddiadwy o ansawdd uchel i fyw ynddynt; galluogi adferiad natur, gwella ansawdd dŵr a chyflawni sero net; cefnogi gwytnwch gwledig, gan gynnwys, drwy'r cynllun ffermio cynaliadwy newydd; a diogelu iechyd a lles anifeiliaid.


Mae Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Lle yn rôl unigryw sy'n hanfodol i gyflawni nifer o ymrwymadau'r llywodraeth newydd ynghyd â rôl a rennir fel cyd-Bennaeth y Proffesiwn Eiddo. Bydd eich ffocws ar gyflawni rhagoriaeth wrth reoli portffolio tir y llywodraeth ar ran Gweinidogion Cymru. Mae darparu mwy o gartrefi yn hanfodol i uchelgais y llywodraeth i sicrhau bod gan bawb yr hawl i gartref diogel, fforddiadwy yn y gymuned lle maent yn dymuno byw. Mae datgloi datblygiad tir yn elfen allweddol o'r uchelgais hwn, gan sicrhau y gellir adeiladu cartrefi cyn gynted â phosibl a mynd i'r afael â rhwystrau. Byddwch yn arwain ar sefydlu Unnos a'i rôl fydd deall a gweithio gydag eraill i gael gwared ar rwystrau a gwneud Cymru'n lle gwych i adeiladu a darparu lleoedd i fyw ynddynt. Cymunedau ffyniannus yw sylfaen Cymru, bydd gennych rôl ganolog wrth adfywio canol trefi a chymunedau lleol a chyflwyno deddfwriaeth Hawl y Gymuned i Brynu fel bod pobl yn teimlo bod ganddynt berchnogaeth o'u cymuned leol a'u heconomi. Wrth gwrs, ni fyddwch yn gwneud hyn ar eich pen eich hun, ni allwn ddarparu cyngor proffesiynol i Weinidogion heb ymgysylltiad arloesol ein rhanddeiliaid a'n partneriaid allweddol wrth gyflawni.

Rydym yn chwilio am geisiadau gan ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol sy'n gallu cyfuno ymwybyddiaeth wleidyddol â'r profiad proffesiynol a'r gallu i arwain. Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ysgogi a datblygu timau sy'n gallu meithrin perthnasoedd cydweithredol, dibynadwy ar bob lefel. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dangos y rhinweddau hyn ac yn dod â safbwyntiau newydd a phrofiad byw i'n gwaith. Bydd hefyd ganddo hanes o arweinyddiaeth gynhwysol, cyflawniad, gwytnwch a chyflawni ar lefel uwch a phroffesiynol. Bydd profiad o yrru newid, sicrhau gwerth am arian a throsi heriau strategol yn amcanion a chymau cyflawni clir yn hanfodol.

Rwy'n edrych ymlaen at recriwtio cydweithiwr newydd sydd â'r rhinweddau sydd eu hangen i wneud y gorau o'r rôl heriol hon.

Croeso gan Alyson Francis, y Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio

Diolch am eich diddordeb yn swydd y Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Lle. Rwy'n falch iawn o weld eich bod yn awyddus i gael rhagor wybodaeth.



Mae'r Gyfarwyddiaeth Tai ac Adfywio yn chwarae rhan sylfaenol wrth gyflawni llawer o uchelgeisiau'r Llywodraeth gan fod cartref wrth wraidd bywyd bob dydd. Mae ein gwaith yn amrywio o gaffael ac adfer tir, darparu mwy o gartrefi o ansawdd da, sicrhau eu bod yn lleoedd diogel a fforddiadwy i fyw ynddynt i sicrhau bod pobl sydd angen cymorth neu sydd mewn perygl o ddigartrefedd yn cael y cymorth hwnnw. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar y lleoedd y mae pobl yn byw, gan adfywio'r lleoedd hyn fel bod cymunedau'n ffynnu.

Mae hon yn rôl bwysig a chyffrous yn nhîm arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru. Mae gennych gyfle i roi hwb i ddatblygu a chyflawni o ran creu lleoedd lle mae pobl eisiau byw a gweithio, gan weithio gydag ystod eang o bobl a sefydliadau ledled Llywodraeth Cymru a Chymru i wneud hynny.

Mae'r rôl gyffrous hon yn cynnig cyfle i weithio ar y cyd â busnesau; gydag ystod eang o bartneriaid yn y sector cyhoeddus ac arbenigwyr i adeiladu ar waith yn y maes hwn a sicrhau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pellach i bobl yng Nghymru.

Mae'r gwaith yn waith sydd wir yn werth ei wneud, ond mae hefyd yn heriol. Byddwch yn rhan o uwch dîm arweinyddiaeth cefnogol a chydweithredol; bydd arweinyddiaeth, positifrwydd, gwytnwch, creadigrwydd a'r gallu i weithio gydag eraill a chynnig her adeiladol iddynt yn hanfodol i lwyddiant.

Mae hon yn rôl uchel ei phroffil sy'n galw am ymrwymiad, meddwl strategol a'r gallu i gyfuno gwybodaeth arbenigol a phrofiad gyda deallusrwydd gwleidyddol. Rydym yn chwilio am rywun sy'n gallu cyfrannu eu gwybodaeth a'u sgiliau arbenigol wrth weithio ar y cyd ag uwch gydweithwyr ac arwain tîm wedi'i wasgaru ledled Cymru.

Bydd angen i'r person a benodir feddu ar y ddawn i arwain a chymell eraill, i gael dylanwad ar draws Llywodraeth Cymru a thu hwnt – ac ennill hygrdedd y Gweinidogion a rhanddeiliaid ar y lefel uwch.

Rhaid i'r person feddu ar sgiliau cyfathrebu ardderchog, a meddu ar y gallu i rymuso a chymell eraill ac i ddylanwadu arnynt.

Yn olaf, ac yn bwysig, rydym yn chwilio am rywun sy'n chwaraewr tîm da i fod yn rhan o'r uwch dîm arweinyddiaeth o fewn y Gyfarwyddiaeth Tai ac Adfywio a Llywodraeth Cymru yn ehangach, gan ddarparu cymhelliant i gyflawni a chadw llygad ar welliant parhaus.

Gwybodaeth am Llywodraeth Cymru



Mae Llywodraeth newydd Cymru yn darparu arweinyddiaeth newydd i Gymru, gan gyflawni newid pendant ar gyfer y prif faterion sy'n ein hwynebu ni heddiw – yr argyfwng costau byw, ein Gwasanaeth Iechyd Gwladol, ysgolion a swyddi. Mae'r Llywodraeth nawr yn gweithio'n gyflym i fynd i'r afael â'r pethau sy'n bwysig i bobl yn eu bywydau bob dydd, gan gyflawni newid y gall pawb ei deimlo, ac adfer ymddiriedaeth yn y llywodraeth.

Llywodraeth newydd Cymru fydd y mwyaf agored ers dechrau datganoli, gan feithrin ymddiriedaeth drwy gyflawni'n weladwy ar flaenoriaethau go iawn pobl Cymru:

- Torri rhestrau aros, a datblygu gwasanaeth iechyd a gofal sy'n addas ar gyfer y dyfodol
- Helpu teuluoedd â chostau byw drwy ofal plant sy'n fforddiadwy ac o safon
- Datgloi potensial economi Cymru, a chreu swyddi da sy'n talu'n dda
- Codi safonau yn ein hysgolion a sicrhau'r amodau gorau ar gyfer dysgu
- Mynd i'r afael â thlodi plant
- Sefyll dros Gymru a mynnu tegwch gan San Steffan

Mae'r Llywodraeth yn cael ei chefnogi gan weision sifil sy'n gweithio ar draws meysydd datganoledig sy'n cynnwys meysydd allweddol o fywyd cyhoeddus fel iechyd, addysg a'r amgylchedd. Mae cryfderau craidd y gwasanaeth sifil – niwtraliaeth wleidyddol; gweinyddu effeithlon; llywodraethu da a rheolaeth gadarn o arian cyhoeddus – wedi darparu sylfaen gadarn sydd wedi ein galluogi i adeiladu'r sefydliad ag iddo enw da sydd bellach yn cefnogi Llywodraeth Cymru. Mae gennym weithlu medrus a phrofiadol o 5000+ o bobl ledled Cymru, yn agos at y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu. Yr Ysgrifennydd Parhaol sy'n arwain Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru ac mae'n atebol i'r Prif Weinidog a Gweinidogion Cymru.

Mae pawb sy'n gweithio yn Llywodraeth Cymru yn cydweithio tuag at un pwrpas cyffredin, sef cefnogi Gweinidogion i greu Cymru well. Mae ein gwerthoedd craidd: creadigrwydd, tegwch, partneriaeth a phroffesiynoldeb yn ein cynnal wrth inni ryngweithio â'n gilydd ac yn ein helpu i farnu a phenderfynu. Drwy ein fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau, mae gennym gyfres glir o ddisgwyliadau i sbarduno'r canlyniadau yr ydym am eu gweld. Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn egwyddorion canolog a'n nod yw bod yn gyflogwr sy'n esiaml.

Yn sail i'n gwaith mae Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu sy'n nodi ein bwriad i fod yn sefydliad sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru yn llawn ar bob lefel, yn wrth-hiliol ac yn gwrthwynebu gwahaniaethu o bob math. Rydym am greu amgylchedd gwaith diogel, cynhwysol ac amrywiol sy'n meithrin diwylliant o barch a thegwch i bawb, beth bynnag fo'u cefndir neu eu hunaniaeth fel y gall pob unigolyn gyrraedd ei lawn botensial. Mae ein Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn amlinellu sut y byddwn yn creu Cymru wrth-hiliol y gallwn i gyd fod yn falch o fod yn perthyn iddi a ffynnu ynddi. Mae ein hymrwymiad i'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn sail i'n gwaith i sicrhau tegwch i bobl anabl.



Rydym yn cydnabod gwerth cael gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth eang o ddiwylliannau, hunaniaethau a chefnidiroedd er mwyn sicrhau llwyddiant Llywodraeth Cymru. Rydym yn annog ceisiadau o bob rhan o gymdeithas ac rydym am benodi o'r gronfa dalent ehangaf a mwyaf amrywiol.

Rydym yn annog ac yn cefnogi staff i ddysgu, datblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle, gan sicrhau gwerthfawrogiad cryf o ddiwylliant a hanes Cymru. Os cewch eich penodi, byddwn yn cynnig cyfleoedd ichi ddysgu Cymraeg yn y ffordd sy'n gweithio orau i chi. Os ydych eisoes yn siarad Cymraeg, bydd cyfleoedd ichi ddefnyddio a datblygu eich sgiliau. Gellir rhoi addasiadau rhesymol ar waith i'ch cefnogi, a gellir trafod y rhain yn ystod y broses ymgeisio neu wrth eich penodi.

Mae ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd a'r negodiadau rhyngwladol dilynol ar ddyfodol perthynas y DU â'r UE ac ar gytundebau masnachu'r DU gyda gwledydd eraill wedi arwain at oblygiadau sylweddol i Gymru ac i waith Llywodraeth Cymru. Mae ein perthynas gyfansoddiadol â Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig eraill yn parhau i ddatblygu.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod y cyd-destun strategol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Gwasanaeth Sifil weithio mewn ffyrdd newydd a gwahanol i wella'r ffordd rydym yn datblygu polisïau a darparu gwasanaethau i bobl Cymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn sefydliad dwyieithog ac yn esiampl o ran dilyn Safonau'r Gymraeg a chyflawni Cymraeg 2050, sef ein hymrwymiad i hybu'r Gymraeg er mwyn sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Caiff deddfwriaeth ei llunio yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae gan y ddwy iaith statws cyfreithiol cyfartal.

Mae rhagor o wybodaeth am Lywodraeth Cymru ar gael [yma](#).

Ein strwythur

Fe welwch strwythur Llywodraeth Cymru [yma](#) ac mae strwythur y Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Cynllunio, Gwynwch Gwledig a Chynaliadwyedd isod:

Claire Bennett
Cyfarwyddwr Cyffredinol -
Grŵp Llywodraeth Leol, Tai,
Gwynwch Gwledig a
Chynaliadwyedd

**Reg Kilpatrick /
Tracey Breheny**

Cyfarwyddwr (rhannu
swydd) – Llywodraeth
Leol a Chynllunio

Alyson Francis

Cyfarwyddwr, Tai ac
Adfywio

**Gian Marco
Currado**

Cyfarwyddwr
Gwynwch Gwledig

Rhodri Asby

Cyfarwyddwr -
Newid Hinsawdd a
Chynaliadwyedd
Amgylcheddol

Richard Irvine

Cangen: Swyddfa'r
Prif Swyddog
Milfeddygol

**Jamie Powell /
Gwag**

Dirprwy
Cyfarwyddwyr – Tîm
Gweithrediadau'r
Cwmni

Gwybodaeth am y Rôl

Teitl y Swydd:	Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Lle
Lleoliad:	O safbwynt eich contract, gellid eich lleoli yn unrhyw un o brif swyddfeydd Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd, Merthyr Tudful, Cyffordd Llandudno neu Aberystwyth. Rydym yn cefnogi patrymau gweithio hyblyg ac addasu trefniadau gweithio i gyd-fynd ag amgylchiadau unigolion. Mae'r rôl yn gofyn am deithio achlysurol i Gaerdydd.
Cyflog:	Mae'r rôl ar lefel Dirprwy Gyfarwyddwr (SCS1) ac mae'r cyflog cychwynnol tua £86,000, er y gallai fod rhywfaint o hyblygrwydd ar gael ar gyfer ymgeisydd eithriadol, hyd at £105,000. • I'r rhai sy'n Weision Sifil eisoes – os ydych yn Ddirprwy Gyfarwyddwr ar hyn o bryd ac yn gwneud cais ar sail symud ar draws i Lywodraeth Cymru, byddwch yn cadw eich cyflog presennol. Os ydych eisoes yn was sifil ac yn gwneud cais am ddyrchafiad, bydd y cyflog cychwynnol ar ôl y dyrchafiad yn gynydd o 10% i'r cyflog sylfaenol fel arfer, neu bydd ar lefel isaf y band cyflog, pa un bynnag sydd uchaf. • Secondiad – os ydych yn gwneud cais am y swydd hon ar sail secondiad, byddwch yn cadw'ch telerau a'ch amodau presennol, gan gynnwys y cyflog (yn amodol ar gymeradwyaeth). • Ochr yn ochr â'ch cyflog o £86,000, bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu £24,914 am fod yn aelod o gynllun pensiwn buddion diffiniedig y gwasanaeth sifil. Cysylltwch â RecrwtioUWS@llyw.cymru os hoffech drafod y telerau a'r amodau, a lefel y cyflog.
Math o Gontract:	Parhaol. Mae hon yn rôl amser llawn, ond rydym yn croesawu ymgeiswyr sydd â diddordeb mewn trefniant rhannu swydd. Os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cais fel partneriaeth rhannu swydd, ewch i dudalen Canolfan Rhannu Swyddi Gyrfaoedd y Gwasanaeth Sifil am ragor o wybodaeth. Yn ogystal, gellir ystyried patrwm gweithio oriau cywasgedig yn unol ag anghenion y busnes.
Gofynion o ran y Gymraeg:	Nid yw sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon, fodd bynnag, maent yn ddymunol a byddant yn cael eu hystyried os bydd dau neu fwy o ymgeiswyr yn derbyn yr un sgôr yn y cam ymgeisio neu gyfweliad. Rydym yn disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus ddatblygu ei sgiliau Cymraeg pan gaiff ei benodi, a byddwn yn ei gefnogi'n llawn i wneud hyn. Mae hyfforddiant ar gael. Fel yn achos gofynion eraill, gellir trafod addasiadau rhesymol â'r unigolyn a benodir.

Disgrifiad o'r Rôl

Mae'r Is-adran Lle yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Tai ac Adfywio o fewn y Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Gwydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd.

Mae'r swydd hon yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod gan bawb yng Nghymru le diogel, fforddiadwy i'w alw'n gartref yn y gymuned yr hoffent fyw ynddi.

Mae gwaith y gyfarwyddiaeth yn amrywiol, yn symud yn gyflym ac yn canolbwyntio'n frwd ar gyflawni ar gyfer Gweinidogion a phobl Cymru. Mae ein gwaith yn rhychwantu caffael a defnyddio tir, cefnogi'r gwaith o adeiladu cartrefi, adfywio ein trefi, dinasoedd a phentrefi, cefnogi'r rhai sy'n byw yn ein cartrefi a'n cymunedau a gweithredu fel stiward y system i sicrhau ansawdd yr hyn yr ydym yn ei adeiladu, ansawdd y lleoedd rydyn ni'n eu hadeiladu ynddynt a gwasanaethau landlordiaid a phreswylwyr.

Pwrpas yr is-adran, ac felly pwrpas y swydd, yw gweithio mewn partneriaeth ar draws y gyfarwyddiaeth a Llywodraeth Cymru yn ehangach a gyda llywodraethau a phartneriaid eraill i:

- Arwain ar sefydlu Unnos, corff datblygu tir i Gymru sy'n galluogi darparu mwy o gartrefi ledled y wlad drwy ddatgloi rhwystrau, sicrhau cyllid preifat a chyflwyno tir i adeiladu arno.
- Arwain a rheoli'r portffolio tir i gefnogi targed y llywodraeth o ddarparu 20,000 o gartrefi fforddiadwy dros bedair blynedd. Mae'r portffolio yn cynnwys tua 27 o safleoedd sy'n eiddo i Weinidogion Cymru gyda gwerth llyfr cyfredol o tua £43m.
- Sicrhau bod systemau cyflenwi effeithiol ar waith sy'n cyfeirio buddsoddiad tuag at adeiladu'r cartrefi cywir yn y lleoedd cywir i ddiwallu anghenion y genedl a gwella bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi.
- Arwain ar y Rhaglen Trawsnewid Trefi cyfredol ac ar ganlyniad y Tasglu Canol Trefi i ysgogi adfywiad llwyddiannus canol trefi ledled Cymru, sy'n ceisio datgloi mwy o safleoedd/cyfleoedd strategol, mynd i'r afael ag eiddo gwag ar y Stryd Fawr, gwneud y mwyaf o asedau cymunedol a diwylliannol, bwrw ymlaen â mwy o brosiectau cyhoeddus a chefnogi seilwaith busnes, a chynyddu apêl a hyfywedd byw yng nghanol trefi i bawb.
- Arwain ar gyflwyno a gweithredu deddfwriaeth Hawl y Gymuned i Brynu i wella hawliau'r gymuned i brynu asedau lleol o werth cymunedol.

Y Prif Gyfrifoldebau

- Bydd deiliad y swydd yn arwain tîm o ryw 40 o staff gyda phedwar adroddiad uniongyrchol ac yn gyfrifol am raglen ariannu cyfalaf flynyddol sydd ar hyn o bryd yn £65m a chyllideb refeniw o tua £4m.
- Reoli adnoddau'r Is-adran Lle, yn arian ac yn bobl, wrth iddi gynnal ei swyddogaethau, gan gadw ffocws ar safonau proffesiynol, ar reoli ariannol da ac ar roi'r sylw priodol i faterion llywodraethu.
- Arwain ar gyflawni ymrwymïadau'r Rhaglen Lywodraethu sy'n cynnwys sefydlu deddfwriaeth Unnos, adfywio Canol Trefi a Hawl y Gymuned i Brynu.
- Adeiladu, ac yna cynnal, ymddiriedaeth a hyder y Gweinidogion. Bydd y rôl yn gofyn am ymgysylltiad rheolaidd â Gweinidogion ar gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu a datblygu'r portffolio tir.
- Arwain ar y rhaglen datblygu tir gan gynnwys rhaglen grant (£25m y flwyddyn) a datblygu fframweithiau cyflawni hir a phartneriaethau.
- Cyngori Gweinidogion ac uwch swyddogion ar ddatblygu strategaeth ar gyfer datblygu safleoedd adfywio tir llwyd yng Nghymru, yn dilyn canfyddiadau ac argymhellion adroddiad Archwilio Cymru.
- Arwain tîm a fydd yn datrys materion cyfreithiol, ariannol a chymhorthdal yn gyson sy'n ymwneud â rheoli a gwarediadau eiddo a safleoedd. Bydd hyn hefyd yn cynnwys y potensial o oruchwyllo caffaeliadau adeiladau/safleoedd cymhleth gan ddefnyddio pwerau Prynu Gorfodol i helpu i ddatgloi cyfleoedd strategol.
- Dylanwadu, darparu arweinyddiaeth strategol a gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Prif Weithredwyr awdurdodau lleol ac uwch Gyfarwyddwyr ar draws sector cyhoeddus Cymru ar y sectorau ac agendâu adfywio a datblygu tir preswyl, gan gynnwys meithrin perthnasoedd strategol yng Nghymru a thu hwnt i'w ffiniau.
- Bod yn ddylanwad cadarnhaol ar rwydwaith eiddo Llywodraeth Cymru fel Cyd-bennaeth proffesiwn Eiddo Llywodraeth Cymru wrth helpu i adeiladu gallu proffesiynol a gosod safonau.
- Hyrwyddo amgylchedd gwaith agored a chynhwysol, gan annog cydraddoldeb, amrywiaeth a gwrth-hiliaeth.

Manyleb y Person

Profiad

Rhaid ichi brofi bod gennych brofiad yn y farchnad eiddo a'r sector amgylchedd adeiledig, gan gynnwys datblygu tir a bod yn gymwys i MRICS.

Profiad o ddeall sut mae llywodraeth yn gweithredu, a gafwyd drwy weithio o fewn sefydliadau'r llywodraeth, ochr yn ochr â nhw neu drwy ymgysylltu â nhw.

Gweld y darlun cyflawn

- Creu strategaethau cydgysylltiedig sy'n gweithredu ac yn cefnogi gweledigaeth y llywodraeth ar gyfer y dyfodol.

Gwneud penderfyniadau effeithiol

- Gwneud synnwyr o ystod eang o bwysau a dylanwadau gwleidyddol a chenedlaethol i ddatblygu strategaethau sy'n cwrdd â nodau'r sefydliad.

Cyflawni'n Brydlon

- Sefydlu diwylliant cynhwysol sy'n caniatáu pobl y lle a'r awdurdod i gyflawni eu hamcanion tra'n sicrhau bod cefnogaeth briodol ar waith pan fo angen.

Cyfathrebu a dylanwadu


- Dylanwadu ar bartneriaid allanol, rhanddeiliaid a chwsmeriaid yn llwyddiannus yn sicrhau canlyniadau buddiol i'r ddwy ochr.

Nod Llywodraeth Cymru yw bod yn sefydliad dwyieithog, er nad yw sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon, maent yn cael eu croesawu a bydddech chi'n cael cyfle i ddefnyddio'r sgiliau fel rhan o'ch gwaith arferol.

Y Broses Recriwtio a Dethol

Cam 1 - Cais

I wneud cais ar gyfer y swydd hon, gofynnir ichi gyflwyno'r canlynol:



Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd ceisiadau yn y naill iaith neu'r llall yn cael eu trin yn gyfartal. Os oes gennych amhariad sy'n golygu na allwch wneud cais ar-lein, e-bostiwch RecriwtioUWS@llyw.cymru i ofyn am fformat arall, neu i ofyn am addasiad rhesymol ichi allu cyflwyno'ch cais.

Rydym yn gweithredu proses recriwtio ddienw. Ni fydd y panel dethol yn gweld gwybodaeth personol wrth lunio rhestr fer yn unol â'n hymrwymiad i roi terfyn ar ragfarn a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Tynnwch eich enw o'ch CV a'ch datganiad personol.

Ni ddylai'r datganiad personol fod yn fwy na 1250 o eiriau. Eglurwch sut y mae eich cymwysterau, eich sgiliau, eich rhinweddau a'ch profiad proffesiynol yn bodloni'r meini prawf hanfodol sydd wedi'u cynnwys ym manyleb y person a sut rydych chi'n bodloni'r ymddygiadau allweddol sef Gweld y Darlun Mawr, Gwneud Penderfyniadau Effeithiol, Cyflawni'n Brydlon a Chyfathrebu a Dylanwadu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau gweithlu sy'n adlewyrchu'r gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu – ar bob lefel. Gofynnir ichi gadarnhau rhywfaint o wybodaeth am amrywiaeth ar eich ffurflen gais. Mae casglu'r wybodaeth hon yn ein galluogi i nodi a ydym yn recriwtio o'r gronfa dalent ehangaf bosibl a gwirio bod pob grŵp yn cael ei drin yn deg drwy gydol y broses; ni fydd y ffurflen hon yn cael ei dangos i unrhyw un sy'n ymwneud ag asesu eich cais. Os nad ydych am ateb cwestiwn penodol, dewiswch yr opsiwn 'gwell gennyf beidio â dweud'. Ni fyddwch yn gallu cyflwyno'ch cais os bydd unrhyw gwestiynau heb eu hateb.

Cam 2 – Asesiadau

Os cewch eich rhoi ar y rhestr fer, byddwch yn cymryd rhan yn yr asesiadau canlynol:

Profion Seicometrig Ar-lein



Ymarfer Ymgysylltu â Staff/Rhanddeiliaid



Cyfweliad ac Ymarfer Senario

Mae'r rhain yn cynnwys trafodaeth gyda seicolegydd drwy Microsoft Teams. Byddwch yn cael dolen at y profion ar-lein o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl y cyfarfod i lunio rhestr fer. Ni fydd angen ichi wneud y profion hyn eto os ydych wedi eu cwblhau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ar gyfer swydd ar yr un radd.

Mae'r ymarfer hwn yn rhoi cyfle ichi gyflwyno eich profiadau, eich syniadau, a'ch barn ar arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer y swydd hon. Byddwch yn cwrdd â grŵp o staff drwy Microsoft Teams a allai fod yn aelodau tîm, cyfoedion, cydweithwyr neu randdeiliaid yn y dyfodol.

Cyn eich cyfweliad, bydd y panel dethol wedi cael adborth ar eich profion seicometrig a'ch ymarfer cwrdd â staff a rhanddeiliaid. Byddwch yn cael senario cyn eich cyfweliad a gofynnir ichi roi sesiwn frifio lafar o 5 munud. Bydd cyfweliadau yn para tua 45 munud a byddant yn ystyried sut mae'r sgiliau a'r profiad yn eich CV a'ch datganiad personol yn bodloni gofynion y rôl. Cynhelir y cyfweliad wyneb yn wyneb yn swyddfa Parc Cathays yng Nghaerdydd.

Llinell Amser ddisgwyliedig

Byddwn yn ceisio bod yn hyblyg, ond efallai na fydd yn bosibl cynnig dyddiadau eraill ar gyfer asesiadau. Gallai'r dyddiadau hyn newid:

Dyddiad cau:	16/10/26
Llunio rhestr fer:	21/10/26
Profion Seicometrig Ar-lein:	27/10/26
Ymarfer Cwrdd â Staff a Rhanddeiliaid:	03/11/26 Dyddiad ychwanegol - 04/11/26
Cyfweliad ac Ymarfer Senario:	17/11/26

Y panel dethol



Alyson Francis, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio

Mae Alyson wedi gweithio i Lywodraeth Cymru ers datganioli, mewn rolau strategaeth, polisi, cyflawni corfforaethol a gweithredol eang, o ffermio i wrthderfysgaeth, polisi plant a theuluoedd i Ymchwiliad Covid-19. Mae hi wedi gweithio gyda sefydliadau a grwpiau ledled Cymru, gydag adrannau Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig eraill. Ers mis Gorffennaf 2025 mae hi wedi bod yn Gyfarwyddwr Tai ac Adfywio yn Llywodraeth Cymru ac yn fwy diweddar mae hefyd wedi dod yn gyd-Bennaeth Proffesiwn Polisi Llywodraeth Cymru. Tan yn ddiweddar roedd Alyson yn aelod o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr a Chwm Taf, ac yn aelod Pwyllgor o grŵp gwirfoddol lleol mewn parc gwledig hanesyddol.



Richard Baker, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Lle

Mae Richard yn Syrffwr Siartredig Practis Cyffredinol yn ôl ei alwedigaeth. Mae wedi gweithio i Lywodraeth Cymru ers dros 20 mlynedd mewn sawl rôl arwain eiddo a chyn hynny roedd yn Uwch Brisiwr gyda'r Asiantaeth Prisiwr Dosbarth/Swyddfa Brisio. O fewn Llywodraeth Cymru mae wedi bod yn amlwg wrth hyrwyddo arferion gorau o ran rheoli asedau o fewn y llywodraeth ac ar draws sector cyhoeddus ehangach Cymru drwy Ystadau Cymru. Ers 2023 mae Richard wedi bod yn Ddirprwy Gyfarwyddwr ar gyfer yr Is-adran Lle sy'n arwain ar y Rhaglen Adfywio Trawsnewid Trefi ac yn rheoli portffolio tir i ddarparu datblygiadau dan arweiniad tai fforddiadwy. Mae'n gyd-bennaeth Proffesiwn Eiddo Llywodraeth Cymru.



Sioned Evans, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Prif Swyddog Gweithredu

Sioned Evans yw Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Effeithiolrwydd Gweithredol a Phrif Swyddog Gweithredu Llywodraeth Cymru. Mae hi'n gyfrifol am bortffolio eang sy'n cynnwys gweithrediadau ac effeithlonrwydd, cyllid, adnoddau dynol, masnachol a chaffael, digidol, data a thechnoleg, cyfathrebu, llywodraethu, gwasanaethau cyfreithiol, a gwasanaethau gwybodaeth a dadansoddol, yn ogystal â goruchwyllo arolygiaeth a chyrff rheoleiddio allweddol. Fel y Prif Swyddog Gweithredu, mae'n cefnogi'r Ysgrifennydd Parhaol i gyflawni blaenoriaethau gweinidogol wrth arwain ymdrechion i adeiladu sefydliad hyderus, galluog a gwydn sy'n gallu cyflawni ac ymdrin â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu Cymru.

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau sy'n croesawu amrywiaeth ac sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal. Ein nod yw sicrhau bod yr ymrwymïadau hyn yn cael eu hymgorffori yn ein harferion gwaith o ddydd i ddydd gyda'n cwsmerïaid, ein cydweithwyr a'n partnerïaid. Mae gan y Bwrdd Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac mae'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am gydraddoldeb ac amrywiaeth. Rydym wedi ymrwymo i recriwtio menywod, pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a phobl anabl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd yn yr Uwch Wasanaeth Sifil.

Rydym wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth, cael gwared ar rwystrau a chefnogi'n holl staff i gyflawni eu potensial. Rydym yn Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall ac yn sefydliad Hyderus o ran Anabledd Lefel 3 (Arweinydd). Mae pum Rhwydwaith Staff sy'n cael eu noddi gan y Bwrdd yn allweddol er mwyn cefnogi'r gwaith hwn ac er mwyn rhoi cefnogaeth gan gymheiriaid: Ymwybyddiaeth a Chymorth Anabledd; Rhwydwaith Cymorth Pobl Ethnig Leiafrifol; Materion y Meddwl (iechyd meddwl a llesiant); PRISM (Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol, Drawsryweddol, Ryngrywiol +) a Menywod Ynghyd.

Gweithle Gwych i Gyn-aelodau'r Lluoedd Arfog

Mae'r cyfle hwn yn rhan o'r cynllun [Gwneud y Gwasanaeth Sifil yn Weithle Gwych i Gyn-aelodau'r Lluoedd Arfog](#).

Cynllun Cyfweiliad Hyderus o ran Anabledd

Rydym wedi ymrwymo i gyflogi pobl anabl a datblygu eu gyrfaedd. Fel rhan o'n hymrwymiad i annog pobl anabl i wneud cais am swyddi yn Llywodraeth Cymru, byddwn yn cynnig cyfweiliad i bobl anabl sy'n bodloni gofynion sylfaenol y swydd. Rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod ar y cyfan yn bodloni'r lefel cymhwysedd ar gyfer y swydd a'ch bod yn meddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiad a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas sy'n analluogi pobl sydd ag amhariadau neu gyflyrau iechyd, sy'n niwrowahanol neu sy'n defnyddio laith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff (neu ddarpar aelod newydd o staff) berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd"). Os oes gennych amhariad neu gyflwr iechyd, os ydych yn niwrowahanol neu os ydych yn defnyddio laith Arwyddion Prydain a bod angen ichi drafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, neu os hoffech drafod sut y byddwn yn eich cefnogi os bydd eich cais yn llwyddiannus, cysylltwch â RecriwtioUWS@llyw.cymru.

Buddion Gweithio i Lywodraeth Cymru

Oriau Gwaith

Croesewir ceisiadau gan bobl sy'n gweithio amser llawn neu yn rhan o drefniant rhannu swydd. Os byddwch yn gwneud cais fel rhan o drefniant rhannu swydd, disgwylir bod y trefniant hwn yn ei le pan fyddwch yn cyflwyno'ch cais a dylech sicrhau ei bod yn glir yn eich ffurflenni cais eich bod yn gwneud cais fel rhan o drefniant o'r fath. Bydd ymgeiswyr sy'n gwneud cais fel rhan o drefniant rhannu swydd yn cael eu cyfweled ar wahân ac fel tîm. Bydd angen i'r ddau ymgeisydd ddangos y lefel briodol o sgiliau proffesiynol a chymwysterau ar gyfer y swydd.

Gweithio'n Glyfar

Gan ei bod yn rôl arweinyddiaeth uwch, mae'r swydd hon yn gofyn am bresenoldeb arweinyddiaeth gweladwy ac ymgysylltiol. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus dreulio cryn dipyn o amser yn rheolaidd yn gweithio yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ac i fynychu cyfarfodydd ac ymrwymadau allweddol gydag uwch arweinwyr, Gweinidogion a rhanddeiliaid yn bersonol. Mae llwyddiant yn y rôl hon yn dibynnu ar feithrin perthnasoedd cryf, dylanwadu ar draws ffiniau sefydliadol a darparu arweinyddiaeth weladwy i gydweithwyr a phartneriaid. Oherwydd hyn, mae presenoldeb rheolaidd wyneb yn wyneb yn elfen bwysig o'r swydd.

Buddion

- Cynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil: <https://www.civilservicepensionscheme.org.uk>
- Gwasanaethau lechyd Galwedigaethol, gan gynnwys cwnsela a gofal llygaid.
- Hawl i amser i ffwrdd o'r gwaith gan gynnwys absenoldeb gofalu, absenoldeb mamolaeth â thâl a di-dâl, absenoldeb tadolaeth hyblyg â thâl, absenoldeb mabwysiadu hyblyg â thâl ac absenoldeb rhiant a rennir.

Hawl i Wyliau Blynyddol

Mae eich hawl i wyliau blynyddol yn dibynnu ar hyd eich gwasanaeth gan amrywio o 25 i 30 diwrnod. Os ydych eisoes yn was sifil ac yn cael eich dyrchafu i'r Uwch Wasanaeth Sifil neu'n symud oddi fewn iddo, bydd eich hawl i wyliau blynyddol yn seiliedig ar hyd eich cyflogaeth barhaus yn y Gwasanaeth Sifil.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei benodi yn unol â thelerau ac amodau'r Uwch Wasanaeth Sifil sydd wedi'u moderneiddio.

Cwestiynau cyffredin

1. Pa genedligrwydd sydd ei angen er mwyn cyflwyno cais?

Mae gwybodaeth am ofynion cenedligrwydd ar gael [yma](#). Mae'r swydd yn agored i'r canlynol yn gyffredinol:

- gwladolion y DU
- gwladolion gwledydd y Gymanwlad sydd â hawl i weithio yn y DU
- gwladolion Gweriniaeth Iwerddon
- gwladolion o'r UE, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu'r Swistir sydd â statws preswlydd sefydlog neu breswlydd cyn-sefydlog neu sy'n gwneud cais am y naill statws neu'r llall erbyn dyddiad cau y [Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE \(EUSS\)](#)
- gwladolion perthnasol yr UE, yr AEE, y Swistir neu Dwrci sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Sifil
- gwladolion perthnasol yr UE, yr AEE, y Swistir neu Dwrci sydd wedi datblygu'r hawl i weithio yn y Gwasanaeth Sifil
- rhai aelodau penodol o deuluoedd gwladolion perthnasol yr UE, yr AEE, y Swistir neu Dwrci

2. Pwy all wneud cais am y swydd hon?

Mae'r swydd hon ar gael i weithwyr parhaol Gwasanaeth Sifil y DU (wedi'u recriwtio drwy gystadleuaeth deg ac agored) ar sail symud ar draws neu ddyrchafiad. Mae'r swydd ar gael hefyd i'r rhai sy'n dymuno ymuno â'r Gwasanaeth Sifil ac i'r rhai sy'n dymuno gwneud cais ar sail benthyciad, neu ar sail secondiad am hyd at ddwy flynedd i ddechrau.

Fel rhan o'ch cais, gofynnir cwestiynau ichi i benderfynu a ydych yn gymwys i wneud cais am y swydd hon. Gofynnir ichi gadarnhau manylion eich cenedligrwydd a bod gennych hawl gyfreithiol i weithio yn y DU; mae hyn yn ofyniad ar gyfer gweithio yn y Gwasanaeth Sifil. Os nad ydych yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd, ni fydd eich cais yn mynd ymhellach. Os daw'n amlwg yn ddiweddarach yn y broses nad ydych yn gymwys i wneud cais, mae'n bosibl y bydd eich cais neu'ch cynnig yn cael ei dynnu'n ôl.

3. A yw'r swydd hon yn dod o dan y Ddeddf Cyfrinachau Swydddogol?

Ydy.

4. A oes angen gwiriad diogelwch?

Oes. Os byddwch yn llwyddiannus, rhaid ichi fod yn barod i gael cliriad diogelwch i lefel Gwiriad Diogelwch cyn dechrau ar y swydd. Gall yr amserlen ar gyfer cliriad diogelwch amrywio. Fodd bynnag, ar ôl cael y gwaith papur gorffenedig, gall gymryd tua 10 i 12 wythnos.

5. A yw'r swydd hon yn dod o dan God y Gwasanaeth Sifil?

Ydy. Mae disgwyl i bob gwas sifil ymddwyn yn unol â [Chod y Gwasanaeth Sifil](#).

6. Beth ddylwn i ei wneud os ydw i eisiau gwneud cwyn?

Mae ein prosesau recriwtio yn seiliedig ar yr egwyddor o benodi yn ôl teilyngdod, ar sail cystadleuaeth deg ac agored, fel y nodir yn [Egwyddorion Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil](#). Os ydych yn teimlo nad yw eich cais wedi cael ei drin yn unol â'r Egwyddorion hyn ac os hoffech wneud cwyn, dylech gysylltu â RecriwtioUWS@llyw.cymru.

7. Beth ddylwn i ei wneud os ydw i'n meddwl bod gwrthdaro buddiannau yn berthnasol imi?

Rhaid ichi ddatgan unrhyw fuddiannau a allai arwain at gwestiynau am y ffordd yr ydych yn ymdrin â busnes Llywodraeth Cymru. Rhaid ichi ddatgan unrhyw fuddiannau busnes perthnasol, cyfranddaliadau, swyddi o awdurdod, taliadau cadw, trefniadau ymgynghori neu gysylltiadau eraill â chyrff masnachol, cyhoeddus neu wirfoddol, ar eich cyfer chi ac ar gyfer eich priod/partner. Os byddwch yn llwyddiannus, bydd gofyn ichi roi'r gorau i unrhyw fuddiant sy'n gwrthdaro ac efallai y bydd eich buddiannau busnes ac ariannol eraill yn cael eu cyhoeddi.

8. Gyda phwy y dylwn i gysylltu i drafod y swydd neu os oes gennyf unrhyw gwestiynau?

Cysylltwch â ni ar RecriwtioUWS@llyw.cymru os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech drafod y swydd hon ymhellach gyda'n tîm Recriwtio neu drefnu trafodaeth gydag Alyson Francis, y Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio.